Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur Bwrdd

| | |
|---|---|
| **Teitl y Papur:** | **Diweddariad gan y Pwyllgor Rheoli Risgiau Llifogydd** |
| **Cyfeirnod y Papur:** | **20-11-B03** |
| **Noddir y Papur Gan:** | **Elizabeth Haywood – Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Risgiau Llifogydd** |
| **Cyflwynir y Papur Gan:** | **Elizabeth Haywood** |

| | |
|---|---|
| **Diben y Papur:** | **Gwybodaeth** |
| **Argymhelliad:** | Nodi'r diweddariad |

## Mater

1. Mae'r papur hwn yn darparu diweddariad byr i'r Bwrdd yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Risgiau Llifogydd ar 26 Hydref 2020.

## Diweddariad

### Rhaglen Adolygu ac Adfer yn dilyn Llifogydd

2. Diolchodd aelodau'r pwyllgor i'r staff a gymerodd ran yn y gwaith Adolygu, gan fynegi eu gwerthfawrogiad. Aeth y Pwyllgor ati i adolygu'r broses o lansio'r dogfennau Adolygu, yn ogystal ag ymateb y cyhoedd a'r cyfryngau. Tynnodd yr aelodau sylw at werth y dull cynllunio manwl i'r Adolygiad, gan awgrymu y dylid mabwysiadu'r dull ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Byddai diweddariad llafar ar y lansiad yn cael ei roi yng Nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd.

3. Aeth yr aelodau ati i drafod y cynlluniau ar gyfer cam gweithredu'r gwaith, gan bwysleisio pwysigrwydd cyflawni, ond gan hefyd nodi'r gofyniad am adnoddau. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn craffu ar y broses weithredu ar ran y Bwrdd llawn, a hynny trwy gyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor.

### Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli'r Risg o Lifogydd ac Erydiad Arfordirol

4. Cafodd y Pwyllgor wybodaeth am brif nodweddion y Strategaeth newydd bwysig hon, a nodwyd yn arbennig y Mesurau sy'n berthnasol i CNC. Nodwyd bod nifer o'r Mesurau naill ai i gael eu harwain gan CNC, neu y byddai'n ofynnol i CNC ymwneud â nhw, gyda'r holl gamau gweithredu i'w cyflawni yn y tair blynedd gyntaf.

## Adolygiad o Effeithiolrwydd Pwyllgorau

5. Ystyriodd yr aelodau yr adroddiad a'r argymhellion. Roedd yr ystyriaethau yn cynnwys gwerth elfen yr adolygiad annibynnol o'r gwaith Adolygu Llifogydd, a chytunwyd y dylai'r opsiwn hwn gael ei ddefnyddio yn y dyfodol, lle bo hynny'n briodol (e.e. pan fyddai arbenigedd technegol annibynnol yn werthfawr). Cytunodd yr aelodau hefyd fod angen cynnal sesiynau i graffu ar y gorwel, yn ogystal ag adolygu'r gofrestr risgiau a'r prosesau rheoli risgiau. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor Rheoli Risgiau Llifogydd yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn yn y dyfodol, yn hytrach na theirgwaith.

## Y Rhaglen Gyfalaf

6. Nododd a chymeradwyodd yr aelodau gynnydd y Rhaglen Gyfalaf yn 2020-21, ynghyd â'r cynlluniau ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Cafwyd trafodaeth am yr angen i sicrhau bod ffrwd gyfalaf dda o brosiectau yn cael ei chynnal, a nodwyd hefyd yr heriau i gyflawni hyn.

## Cronfeydd dŵr

7. Cyflwynwyd diweddariad ar ddiogelwch cronfeydd dŵr i'r Pwyllgor. Roedd hyn yn adeiladu ar y sesiynau adeiladol a defnyddiol iawn ar Gronfeydd Dŵr yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoli Risgiau Llifogydd yn ystod y misoedd diwethaf. Roedd y papur yn ystyried y modd y gallai'r adolygiad o'r digwyddiad yng nghronfa Toddbrook ysgogi newid sylweddol, o bosibl, o ran y ffordd y caiff diogelwch cronfeydd dŵr ei sicrhau a'i reoli, a'r modd y deddfir ar ei gyfer. Roedd yn amlygu'r modd y mae trafodaethau â'r Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoli Risgiau Llifogydd wedi ysgogi ystyriaeth bellach o ran beth arall y gellir ei wneud i sicrhau diogelwch cronfeydd dŵr yng Nghymru. Cytunwyd y byddai papur opsiynau yn cael ei roi gerbron cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Risgiau Llifogydd yn y dyfodol, ac y byddai Cronfeydd Dŵr yn eitem sefydlog yn holl gyfarfodydd y Pwyllgor hyd y gellid rhag-weld.